**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 17 Mehefin, 2019**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 20 Mehefin, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 27 Mehefin, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 28 Mehefin, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgs, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Glyn Haynes

**Ymddiheuriadau**: Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr

(10:00 a.m. tan 12:00 p.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Gorffennaf, 2019 i Chwefror, 2020 fel y'i cyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 4, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 2018/19, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Rheoli yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i dderbyn y mesurau lliniaru mewn perthynas â'r meysydd hynny a nodir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Dogfen Gyflawni Blynyddol 2019/20**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Rhoi'r hawl i Swyddogion drwy law'r Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol i ymgymryd â'r dasg o orffen y cynllun drafft ac argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf, 2019.**<br>**• Bod y Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau pa mor ymarferol ydyw cyflawni'r ddogfen hon fel cynllun sydd yn nodi gwaith y Cyngor wedi'i alinio â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer ei gyflawni yn ystod 2018/19.**<br>**• Bod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cael ei chyhoeddi yn gynharach yn y flwyddyn ariannol yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Galluogi'r Cyngor i fabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Ddogfen Gyflawni** |

| | |
|---|---|
| | **Flynyddol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19.**<br>• **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C.**<br>• **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r Rhaglen Buddsoddi i Arbed a amlinellir yn Atodiad CH.**<br>• **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithiolrwydd ar gyfer 2018/19 yn Atodiad D.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 yn Atodiadau DD ac E.**<br>• **Nodi bod yr alldro yr adroddir arno yn y ddogfen yn parhau i fod yn amodol hyd oni fydd yr archwiliad statudol wedi'i gwblhau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro Perfformiad Cyllideb Refeniw 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Adroddiad Alldro Cyfalaf 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi sefyllfa alldro ddrafft y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 sy'n destun Archwiliad.**<br>• **Cymeradwyo cario £3.065m** |

| | |
|---|---|
| | **drosodd i 2019/20 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cario drosodd i 2019/20 yn unol â pharagraff 4.2, Atodiad A.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Blwyddyn Ariannol 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a amlinellir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion fel y'i cyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Gostwng Oed mynediad Ysgol Henblas**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau'r cynnig i ostwng oed mynediad yn Ysgol Henblas,** |

| | |
|---|---|
| | **i fod yn weithredol o 31 Awst, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mewn ymateb i gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Darparu'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd**<br>Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 a'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion 1 i 3 yr adroddiad mewn perthynas â chychwyn proses gaffael ffurfiol (fel y'i disgrifir yn Atodiad 3) i benodi contractwr i ymgymryd â'r Contract Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd o 5 Ebrill 2021, yn ddarostyngedig i welliannau a wnaed yn y cyfarfod mewn perthynas â'r canlynol –**<br><br>• **Opsiwn i ymestyn y contract**<br>• **Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fydd yn cael eu hymarfer mewn ymgynghoriad â'r** |

| | |
|---|---|
| | **Deilodd Portffolio, a**<br>**• Bod yr opsiynau prisio i'w cynnwys yn y dogfennau gwybodaeth tendr yn cynnwys, yn ychwanegol, cais i'r sawl sy'n gwneud bid i ddarparu prisiau tendr yn seiliedig ar dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Real.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn hwyluso cychwyn Contract Casglu Gwastraff a Glanhau Strydoedd newydd.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |